## Polisi Scramblo/Dringo Hawdd

Gan ystyried y potensial o beryglon wrth fynd ati i sgramblo dylid gwneud asesiad risg wrth baratoi gan gynnwys:

- natur arwynebedd y graig/grib/gwli;
- maint a phrofiad y grwp;
- y tywydd a'r elfennau gan fod eira a rhew yn medru cynyddu peryglon a gradd y sgrambl.
- Mae angen fod yn ymwybodol o raddfa y sgrambl neu'r ddringfa hawdd ac yn gyfarwydd â'r llwybr neu'r cyfeiriad i ddilyn.
- Er gall scrambl gradd 1 (e.e. Crib Goch) gael ei gwneud heb raff, dylai'r arweinydd gario rhaff ac ychydig o offer megis ambell sling a charabiner ar raddfa 2 a 3.
- Dylid gwisgo esgidiau addas ar gyfer y fenter ac ystyried y defnydd o wisgo helmed wrth sgramblo graddau 2 a 3 i leihau'r posibilrwydd o niwed gan gerrig rhydd yn disgyn oddi uchod oherwydd dringwyr, ambell ddafad neu afr.
- Dylid dilyn y camau uchod wrth ymgymryd â dringfeydd hawdd.
- Dylai'r arweinydd fod â'r cymwysterau a/neu'r profiad o arwain dringfa gan gario rac o offer priodol ar harnais i greu belai i dywys yr eilydd.
- Gan yr arweinydd mae'r gair olaf i beidio a gadael dringwr/wyr fentro ar y ddringfa os nad ydynt yn gwisgo yn addas ac yn cario'r offer priodol.
- Dylai'r eilydd wisgo harnais a bod â'r gallu i glymu fewn i raff a gyda'r wybodaeth o sut i belaio os oes angen gwneud hynny.